TELFORD, THOMAS (1757 - 1834), peiriannydd sifil enwog a ddechreuodd fel prentis saer maen

Enw: Thomas Telford
Dyddiad geni: 1757
Dyddiad marw: 1834
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: peiriannydd sifil enwog a ddechreuodd fel prentis saer maen
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 9 Awst 1757 yn Westerkirk, pentref bychan diarffordd yn Dumfries, Sgotland, yn fab i fugail. Ceir ei hanes yn *D.N.B.* a gweithiau eraill; gweler hefyd Syr Alexander Gibb, *The Story of Thomas Telford: The Rise of Civil Engineering* (London, 1935); yma ni bydd a fynnom ond â'i waith yng Nghymru a'r goror. Daeth Telford yn ' surveyor of public works ' yn Swydd Amwythig ac, yn 1793, yn beiriannydd, pensaer, etc., i gwmni'r Ellesmere Canal, a oedd am gysylltu afonydd Merswy, Dyfrdwy, a Hafren. Golygodd y gwaith ar y gamlas i Telford orfod gwneuthur dau beth a oedd yn anghyffredin braidd ym Mhrydain ar y pryd ac a brofodd gymaint o wreiddiolder a berthynai iddo fel cynlluniwr a pheiriannydd, sef gwneuthur y pontydd sydd yn cario dwr y gamlas dros ddyffryn afon Ceiriog yng Nghastell y Waun (Chirk) a thros ddyffryn Dyfrdwy ym Mhontycysylltau - dau waith y dywedwyd amdanynt eu bod ' among the boldest efforts of human invention in modern times.' Bu gwaith Pontcysylltau ar droed o 1795 hyd 1805 a'r llall o 1796 hyd 1801. Wedi hyn bu Telford yn brysur mewn mannau eraill; er enghraifft, yn Sgotland - ffyrdd, pontydd, a phorthladdoedd, a'r Caledonian Canal. Yr oedd mor brofiadol yn y gwaith o wneuthur neu wella ffyrdd a phontydd nes y gofynnwyd iddo gan y Llywodraeth dalu sylw i'r ffordd sydd yn arwain o Amwythig i Gaergybi - y 'ffordd bost,' i Iwerddon, yr ' Holyhead Road ' fel y gelwir hi hyd heddiw, ac yn arbennig i gwestiwn pontio Menai a thrwy hynny osgoi perygl croesi rhwng Sir Gaernarfon a sir Fôn mewn ysgraffau. Cynlluniodd Telford bont grog dros gulfor Menai, rhywbeth nad oedd peirianwyr Lloegr ddim wedi gwneud fawr o arbrawf arno cyn hyn. Wedi i arbenigwyr roddi barn ar y cynllun ac i un o bwyllgorau'r Ty Cyffredin ei gymeradwyo penderfynodd y Senedd ddarparu'r arian. Dechreuwyd gwaith ar y bont ym mis Awst 1819 a chwplawyd ef, bron, ym mis Ebrill 1825. Yn 1822-6 gwnaeth Telford bont gyffelyb dros afon Conwy. Heblaw ei waith yng Ngogledd Cymru a'r gororau bu Telford yn paratoi adroddiadau ar rai o ffyrdd De Cymru; gweler y rhestr ffynonellau isod. Am ei waith yn Amwythig (y castell, y carchar, eglwysi, etc.) a Sir Amwythig gweler llyfr Syr Alexander Gibb. Bu Telford farw yn Llundain ar 2 Medi 1834 a chladdwyd ef ar y nawfed o'r mis yn abaty Westminster.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography a'r ffynonellau a roddir ynddo

Syr Alexander Gibb, *The Story of Telford, The Rise of Civil Engineering* (London 1935) - noder y llyfryddiaeth lawn a'r darluniau sydd yn y gwaith hwn

Atlas to the Life of Thomas Telford, Civil Engineer, containing eighty-three copper plates illustrative of his professional labours (1838)

T. G. Cumming, *Description of the Iron Bridges of Suspension now erecting over the Strait of Menai at Bangor and over the River Conway, in North Wales; with two views also some account of the different bridges of suspension in England and Scotland; particularly of Captain S. Brown's iron bar bridge over the River Tweed. With remarks on the proposed suspension bridge over the River Mercy, at Runcorn Gap; and some calculations of the strength of malleable iron, founded on experiments* (Llundain 1824)

W. A. Provis, *An historical and descriptive account of the suspension bridge over the Menai Strait in North Wales, with a brief notice of Conway Bridge. From designs by, and under the direction of T. Telford* (Llundain 1828)

Pring, *Particulars of the Grand Suspension Bridge erected over the Straits of Menai ... designed by, and built under the ... direction of T. Telford* (London 1826)

Thomas Telford, *Report, Plan, and Estimate for building a bridge over the Menai Strait at Bangor Ferry* (1818)

Thomas Telford, *River Dee Navigation*, 1817 -?

Reports of Commissioners on the Holyhead Road, 1821-2, 1824-8

Report for Committees on Holyhead Roads, Harbours, etc., in the years 1810, 1811, 1815, 1816, 1817, 1819, 1820, 1822 (rhai o'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan Thomas Telford ei hun)

Report (to the Lords Commissioners of His Majesty's Treasury) on the Mail Road through South Wales, made under the direction of Thomas Telford (1825)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Telford

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 35254198

Wikidata: Q380875

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu